36. SMOKEY YR ARTH
(Stori o'r Unol Daleithiau)

Hoff degan merch wythmlwydd oed o'r enw Leanne oedd hen dedi bêr rhacs o'r enw Smokey. Gwisgai Smokey iwnifform las tywyll tebyg i'r rhai a wisgir gan wardeiniaid parciau, het ac iddi ymyl lydan a bathodyn mawr disglair. Ledled yr Unol Daleithiau yr oedd Smokeys newydd sbon yn gwisgo'n union yr un iwnifform wedi cael eu cynhyrchu gan y gwasanaeth tân gyda'r pwrpas o atgoffa plant sut i osgoi cynnau tanau anfwriadol yn y goedwig. Ond er bod cymaint o Smokeys o gwmpas, yr oedd Smokey Leanne yn arbennig. Efallai bod yr eirth eraill yn gwybod llawer am sut i osgoi tanau, ond dim ond arth Leanne oedd yn gwybod popeth am Leanne.

Gwnâi Leanne a Smokey bob dim gyda'i gilydd. Felly, yn naturiol ddigon, pan aeth y teulu Heath ar wyliau mewn carafán i Kentucky, aeth Smokey gyda hwy hefyd.

Heblaw am Smokey yr oedd pum aelod o'r teulu ar wyliau gyda Leanne yr haf hwnnw. Gyda hi roedd ei mam, ei thad, ei chwiorydd hŷn, Julie a Lisa, a'i nain. Ac yr oedd gan bawb bron syniadau gwahanol am sut i dreulio'r gwyliau. Credai Mr a Mrs Heath mai pwrpas y gwyliau oedd gwibio o gwmpas o un lle i'r llall gyda'r bwriad o gael gweld cymaint o'r wlad ag oedd yn bosibl. Golygai hyn na fyddent yn treulio mwy nag un noson ar yr un safle. Dymuniad Julie a Lisa oedd

cael bwrw'r gwyliau yn nofio a chyfarfod bechgyn. Oherwydd hynny nid oeddent yn fodlon i Mr a Mrs Heath aros yn unrhyw safle gwersylla os nad oedd yno bwll nofio. Credai Nain mewn treulio'r rhan fwyaf o'r gwyliau yn cysgu yng nghefn y car. Golygai hyn ei bod yn treulio'i hamser yn chwyrnu'n swnllyd dros ben. Ac am Leanne ei hunan – wel, fe *fu* hi o dan yr argraff mai rhywbeth i'w fwynhau oedd gwyliau – ond doedd hi'n bendant ddim yn mwynhau'r gwyliau hyn.

Aeth diwrnod ar ôl diwrnod heibio a hithau'n cael ei gwasgu yng nghefn y car rhwng ei nain swnllyd a'i chwiorydd cecrus. 'Oes gan y safle yna bwll nofio?' bloeddiai'r merched bob tro roedd Mr Heath yn meddwl ei fod wedi dod o hyd i le addas i aros. Os na fyddai yno bwll byddent yn ei orfodi i yrru ymlaen – am oriau'n aml iawn – nes deuai o hyd i un. Fyddai hyn ddim yn rhy ddrwg petai Leanne yn hoffi pyllau nofio. Ond doedd hi ddim. Fedrai hi ddim nofio.

Wrth i'r wythnos fynd rhagddi, roedd Leanne yn diflasu fwyfwy. Roedd pob diwrnod yn ofnadwy. Ond o'r holl ddiwrnodau ofnadwy y gwaethaf un oedd y diwrnod cyn iddynt gychwyn am adref. Roedd yn boeth aruthrol. Roedd y golygfeydd yn ddiflas. Chwyrnai Nain yn uwch nag arfer. Ac fel arfer roedd ei chwiorydd wedi sylwi ar fachgen golygus yn y pwll nofio gan ei gadael hithau'n eistedd, fel gwsberan, ar yr ochr.

'Wyddost ti beth, Smokey – mae'n *gas* gen i wyliau,' sibrydodd Leanne yng nghlust Smokey. Y cwbl roedd hi am ei wneud ar ôl swper oedd mynd yn syth i'w gwely.

'Nos da,' galwodd yn ddigalon wrth ymlwybro'n benisel am y garafán.

'Nos da, pwt,' atebodd ei thad. 'Fydda i draw mewn munud i ddweud stori wrthat ti.'

Wel dyma'r unig newydd da i Leanne ei glywed drwy'r dydd. Roedd ei thad yn un gwych am adrodd straeon amser gwely. Byddai'n defnyddio ei ddychymyg – gan wneud straeon i fyny am Smokey a'i anturiaethau. 'Fydd hi'n stori am Smokey?' holodd i wneud yn siŵr.

'Siŵr iawn. Rho ychydig funudau i mi gael penderfynu pa ffordd fydd yr un orau i fynd am adref yfory.'

Nawr, efallai eich bod chi wedi sylwi ar rywbeth ynglŷn ag oedolion. Yn aml pan fyddant yn dweud ychydig funudau, yr hyn maent yn ei olygu mewn gwirionedd yw ychydig oriau! Ac felly y bu hi gyda Mr

Heath. Bu Leanne yn aros ac aros. Ond doedd dim golwg am ei thad. O'r diwedd syrthiodd i gysgu heb ei stori amser gwely.

Fe ddechreuodd pob dim o chwith y diwrnod canlynol. Cysgodd pawb yn hwyr. 'Brensiach y brain! Mae hi wedi troi naw o'r gloch! Llamodd Mr Heath allan o'i wely bync gan ddechrau hel pawb o'r garafán i'r car. 'Does dim amser am frecwast. Ryden ni 'mhell ar ei hôl hi. Fydd rhaid i ni fachu rhywbeth i'w fwyta ar y ffordd.'

Un peth da am orfod neidio'n syth o'r gwely i'r car yw'r ffaith nad yw'r corff yn cael amser i ddeffro'n iawn. Cysgodd Leanne, Julie, Lisa a Nain (wrth gwrs!) yn heddychlon am ran gyntaf y daith. Buont yn teithio am gwpl o oriau cyn i Leanne sylweddoli'n sydyn fod rhywbeth o'i le. Ymbalfalodd o gwmpas, ond doedd dim golwg o'r creadur blewog. Eisteddodd i fyny. Chwiliodd ymhobman yng nghefn y car. 'Mam, ble roddaist ti Smokey?' galwodd. 'Fedra i ddim dod o hyd iddo'n unman.'

Yn sydyn dyma sŵn brêcs yn sgrechian.

'Damwain! Damwain!' sgrechiodd Julie a Lisa gan afael yn dynn yn ei gilydd.

Ond nid oeddent yn cael damwain. Mr Heath oedd wedi penderfynu stopio'r car yn sydyn ar ochr y ffordd.

'Rwy'n teimlo'n ofnadwy.' Curodd ei ben yn erbyn y llyw.

'Wyt ti'n sâl, cariad?' holodd Mrs Heath yn llawn pryder.

'Na. Poeni am be dwi wedi'i wneud ydw i.' A chyfaddefodd y cyfan. Y noson flaenorol, ar ôl i Leanne syrthio i gysgu, cofiodd am y stori amser gwely. Roedd yn flin wrtho'i hun am dorri ei addewid. Felly, roedd wedi symud Smokey a'i daro mewn coeden tu allan i'r garafán.

'Roeddwn i wedi bwriadu i Leanne ei ddarganfod y bore 'ma. Ac yna roeddwn am adrodd stori grêt i egluro sut cyrhaeddodd yr arth y goeden. Ond bore 'ma, yng nghanol y fath halibalŵ, fe anghofiais ...'

'Wyt ti'n ceisio dweud fod tedi Leanne yn sownd mewn coeden gannoedd o filltiroedd i ffwrdd?' gofynnodd Julie.

Ysgydwodd Mr Heath ei ben a dechreuodd Leanne lefain.

'O Smokey! Fy Smokey! Wela i byth mohono eto,' meddai gan feichio wylo.

'Reit. Dyna ni!' Taniodd Mr Heath y car a'i droi'n ôl.

'Hei, ble den ni'n mynd, Dad? gwaeddodd Julie a Lisa.

'Ble dech chi'n feddwl? Den ni'n mynd 'nôl i'r safle gwersylla i

achub Smokey, dyna ble.'

'Fedra i ddim credu hyn!' Ysgydwodd Mrs Heath ei phen. 'Teithio can milltir er mwyn rhyw arth!'

Y cwestiwn mawr ar feddwl pawb oedd a fyddai Smokey yn dal yn y goeden wedi iddynt ddychwelyd. Rhoddodd pawb ochenaid o ryddhad pan gyraeddasant yr union fan lle bu'r garafán a gweld blaen pawen foel Smokey'n ymwthio allan rhwng y canghennau.

'I lawr â ti, 'ngwas i.' Ymestynnodd Mr Heath am yr arth, a'i dynnu allan o'i guddfan a'i roi i Leanne.

'O Smokey, oedd gen ti hiraeth amdanaf? Roedd gen i hiraeth *mawr* amdanat ti,' meddai Leanne gan gofleidio'r tedi.

Yn y cyfamser roedd ei rhieni'n ceisio ystyried beth i'w wneud nesaf.

'Chyrhaeddwn ni byth adref mewn pryd nawr,' meddai Mr Heath.

'Digon gwir,' cytunodd Mrs Heath a golwg feddylgar ar ei wyneb. 'Wyddost ti beth, mae'r busnes Smokey 'ma wedi gwneud i mi feddwl. Falle'n bod ni wedi bod yn rhedeg o gwmpas gan geisio gwneud gormod. Efallai dylen ni ymestyn ein gwyliau, a ... wel ... mwynhau *bod* gyda'n gilydd, fel teulu.'

Ac felly y bu. Am y tro cyntaf ers gadael eu cartref treuliodd y teulu Heath dri diwrnod cyfan mewn un lle – dim rasio o gwmpas, dim gyrru, dim golygfeydd! Roedd amser i chwarae gemau, cael hwyl a dweud straeon. Ac wedi tri diwrnod o *fod* gyda'i gilydd roedd pawb yn teimlo'n well.

'Wyddost ti beth, Smokey?' sibrydodd Leanne yng nghlust y tedi bêr wrth i'r teulu baratoi i gychwyn am adref. 'Diolch i ti, mae'r gwyliau hyn wedi bod yn wyliau pur dda wedi'r cyfan!'

HYD: 8 munud

NEGES: Creodd Duw ni'n *fodau* dynol (*human 'beings'*) ac nid yn *wneuthurwyr* dynol (*human 'doings'*). Yng nghanol holl fwrlwm bywyd rhaid i ni gael amser i fod gyda'n gilydd, ac amser i fod gyda Duw.

DARLLEN: Luc 10: 38–42